

CWRIWCLWM CYFNOD ALLWEDDOL 5 : BLYNYDDOEDD 12, 13 a 14

Yn ystod blwyddyn 11 cynghorir y disgyblion ynglŷn â'r ddarpariaeth addysgol bellach sydd ar gael ar eu cyfer - yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

Y Cyrsiau Safon Uwch

Bydd angen o leiaf 5 Gradd C [neu gyffelyb ar Lefel 2] i gael mynediad i Fl. 12.

I ddilyn cwrs UG bydd angen TGAU Gradd C neu Trothwy Lefel 2 yn y pwnc hwnnw (neu bwnc tebyg). Ni fydd dichon symud ymlaen at U2 (Bl. 13) heb lwyddo yn yr UG (Bl. 12).

Y BAC CYMREIG

CBC Diploma Uwch Lefel 3 [Ôl-16]

Ceir dwy ran:

- ◆ Opsiynau (lefel Uwch Gyfrannol / Uwch)
- ◆ Craidd (Sgiliau Allweddol; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Gysylltiedig â Gwaith; Addysg Bersonol a Chymdeithasol)

Dyma gynnwys y Craidd yn syml:

Sgiliau Allweddol

- ◆ Cyfathrebu
- ◆ Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- ◆ Cymhwysio Rhif
- ◆ Gweithio gydag Eraill
- ◆ Datrys Problemau
- ◆ Gwella Dysgu a Pherfformio eich Hun

Cymru, Ewrop a'r Byd

- ◆ Materion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol
- ◆ Modiwl iaith
- ◆ Ymchwiliad unigol

Addysg Gysylltiedig â Gwaith

- ◆ Menter Tîm
- ◆ Profiad Gwaith

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

- ◆ Trafod cyfle cyfartal, cynhwysiant cymdeithasol, dinasyddiaeth, iechedy da
- ◆ Cyfranogi yn y Gymuned

Mae pawb yn Ysgol Uwchradd Bodedern yn gwneud y BAC, ac yn ennill cymhwyster am yr hyn y maent yn ei wneud eisoes yn eu cymunedau.

Mi fydd yn eich paratoi ar gyfer Addysg Uwch a Chyflogaeth a chydabyddir gwerth y cymhwyster gan UCAS gyda 120 o bwyntiau os cewch radd 'A' - sydd yn gywerth â Gradd 'A' mewn Safon Uwch.

Mae'r BAC yn ddull cymharol hawdd i gasglu pwyntiau ar gyfer mynediad i Brifysgol.

ADDYSG GREFYDDOL

Nid yw'r ysgol yn dal cysylltiad ag unrhyw enwad crefyddol penodol a darperir addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig. Dechreuir pob diwrnod gyda gwasanaeth priodol ac o dro i dro cynhelir ambell i wasanaeth yn y capel neu'r eglwys yn y pentref, e.e.diolchgarwch am y cynhaeaf. Ymdrechir i roi gwedd Gristionogol i waith pob dydd yr ysgol ac i arddel cysylltiad y plant â chapeli ac eglwysi'r fro. Mae'n ofynnol darparu amser rhesymol ar gyfer Addysg Grefyddol i blant a myfyrwyr o bob oedran. Ym mlynnyddoedd 10, 11, 12 a 13 mae'r amser hwn yn gynwysedig yn yr amser a roir i Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Os yw rhiant yn gwrthwynebu'n gydwybodol i'w blentyn dderbyn gwersi addysg grefyddol neu fynychu'r gwasanaeth boreol, fe fyddwn yn cyfarfod â'u dymuniadau.

ADDYSG GYRFAOEDD a'r BYD GWAITH

Rhoddir cryn bwyslais ar gysylltiadau â'r byd gwaith a diwydiant. Cynigir Addysg Gyrfaoedd fel rhan o'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol - er mwyn dechrau codi ymwybyddiaeth disgyblion yn yr Ysgol Iau ac yna ym mlynnyddoedd 10 a 11 sicrhau fod disgyblion yn derbyn cyngor gan Gyd-gysylltydd Gyrfaoedd yr ysgol a chan swyddog o'r Cwmni Gyrfa. Cynhelir cynhadledd yrfaol yn yr ysgol bob dwy flynedd ar gyfer y disgyblion hyn a chaiff cyflogwyr lleol gyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn lleol.

Mae gan yr Awdurdod Addysg bolisi strwythuredig er sicrhau rhaglen addysg diwydiant o ansawdd uchel a phwyslais ar iddi fod yn rhan integredig o gwricwlwm 5-18 oed, ac mae'r ysgol wedi ymestyn a datblygu'r polisi hwnnw o fewn y cyd-destun lleol trwy gryfhau'r berthynas â'r gymuned fusnes a'r cyflogwyr a manteisio ar eu cyfraniad o fewn y cwricwlwm.

Fel rhan o'r rhaglen hon rhoddir lleoliadau profiad gwaith i bob disgybl ar ddiwedd blwyddyn 10 a blwyddyn 12. Cyn trefnu bydd yr ysgol yn trafod a phenderfynu ar nod ac amcanion y lleoliad a'i berthnasedd i addysg y myfyriwr. Efallai y bydd pwyslais y nodau yn newid o ddatblygiad personol yn bennaf i sgiliau galwedigaethol fel y bydd y myfyrwyr yn gwneud cynnydd trwy'r dilyniant darpariaeth 14-19 oed.

GYRFA CYMRU

Gwasanaeth cyngor, cyfarwyddyd a gwybodaeth gyrfaoedd i bob oed ydy Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc mewn addysg yn cynnig cyfarwyddyd diduedd am:

- gyrfaoedd amrywiol
- opsiynau 14+, 16+, 18+
- tueddiadau byd gwaith
- gyrsiau addysg bellach ac uwch.

Bydd pob cyfweiliad wedi ei deilwrio at anghenion yr unigolyn gan helpu iddynt adnabod eu cryfderau wrth wneud penderfyniadau at y dyfodol.

Cynigir cefnogaeth benodol i bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol.

Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi'r ysgol i gyflwyno Rhaglen Byd Gwaith i ddysgwyr drwy weithdai, gwaith grŵp a chysylltiadau â chyflogwyr i'w helpu i ddatblygu sgiliau. Bydd Cynghorydd Gyrfa fel arfer yn bresennol yn nosweithiau rhieni o flwyddyn 9 ymlaen a gallwch gysylltu â'ch Canolfan Gyrfa lleol ar : 0800 028 4844.

Yn ogystal ceir rhagor o wybodaeth ar wefan www.gyrfacymru.com ar sut y gallech chi fel rhieni gwarchodwyr gefnogi eich plentyn. Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwmo i ofynion Deddf Diogelu Data 1988 ac yn cadw gwybodaeth am eich plentyn ar fas data diogel. Os ydych am ragor o fanylion cysylltwch â 01248 672800 neu e-bostio post@careers-gyrfa.org.uk.

ADDYSG IECHYD RHYW a PHERTHNASOEDD

Cred y Corff Llywodraethol y dylai addysg rhyw a pherthynas fod yn rhan allweddol a chreiddiol o gwricwlwm pob disgybl ac mae'r dulliau cyflwyno yn annog disgyblion i roi'r ystyriaeth briodol i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol. Defnyddir gwersi Gwyddoniaeth i ddysgu'r agweddau ffeithiol ar addysg iechyd. Defnyddir gwersi bugeiliol a rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer materion megis cyfrifoldeb personol, agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill, y gyfraith, atal cenhedlu, heintiau, perthnasoedd diogel, camdrin a'r manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor.

Gwahoddir rhieni i wneud apwyntiad i drafod y cynllun gwaith a'r Polisi Addysg Rhyw a Pherthynas gyda'r Pennaeth os oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â'r priodoldeb o gyflwyno rhaglen Addysg Iechyd, Rhyw a Pherthynas i'w plant.

TREFNIADAETH AR GYFER CHWARAEON

Nodau: Galluogi pob unigolyn

- i ddatblygu ei sgiliau corfforol
- i feithrin gwybodaeth, agweddau a sgiliau sy'n berthnasol i'r defnydd creadigol o hamdden.
- i ddatblygu'n gyflawn drwy gynyddu ei hunan hyder a'i hunan barch

Adnoddau

Campfa, neuadd chwaraeon, buarthau caled mawr, cyrtiau tennis, maes bob tywydd helaeth, digon o gaeau ar gyfer gemau o bob math, rhedfa trawsgwlad sy'n gyfangwbl o fewn libart yr ysgol.

Darpariaeth

Addysgir chwaraeon, fel rhan o Addysg Gorfforol, drwy'r ysgol yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ychwanegol cynigir gweithgareddau all-gyrsiol (amser cinio ac ar ôl yr ysgol).

GWERSI OFFERYNNOL

Darperir gwersi offerynnol o dan gynllun Gwasanaeth Cerdd i Ysgolion – Canolfan William Mathias. Darperir gwersi ar gyfer: y ffidil, cello, ffliwt, clarinét, offerynnau pres, llais, drymiau, telyn, gitâr.

Rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion sydd eisoes wedi dechrau ar wersi offerynnol yn y Cynradd er mwyn sicrhau dilyniant yn yr Uwchradd. Weithiau ceir cyfle i ddechrau o'r newydd ar offeryn – os oes lle ar amserlen y Tiwtor. Gofynnir am gyfraniad ariannol yn dymhorol tuag at gost y gwersi.

CYSYLLTIADAU EWROPEAIDD A BYD-EANG

Mae gan yr ysgol gysylltiadau efo nifer o ysgolion a cholegau ar draws Ewrop a thu hwnt. Golyga hyn bod cyfle i ddisgyblion ddeall am genhedloedd, traddodiadau, ieithoedd a diwylliannau eraill ac i gydweithio â phobl ifanc o genhedloedd eraill.